

GREEN GEN CYMRU CYSYLLTIAD EFYRNWY FRANKTON

Cwestiynau Cyffredin


Mae Green GEN Cymru yn cynnig safle is-orsaf newydd a llinell uwchben drwy ddyffryn Efyrnwy er mwyn cysylltu ynni gwyrdd, glân â'r rhwydwaith trydan presennol ger Lower Frankton.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, mae arnom angen seilwaith grid newydd sy'n gallu cysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau ledled Cymru a Lloegr. Mae angen hyn ar frys er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd ffosil.

Rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau posibl ar y gymuned leol a'r ardal o'i chwmpas. Isod fe welwch ychydig o gwestiynau cyffredin ac atebion yn ymwneud â'r prosiect sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi am ein cynigion.

C Pa mor hir fydd y llinell uwchben a faint o beilonau fyddwch chi'n eu defnyddio?

A Rydym yn disgwyl y bydd cyfanswm hyd y llinell uwchben o gwmpas 50 cilometr, sydd tua 31 milltir. O'r cyfanswm hwn, disgwyliwn y bydd llinell uwchben 45 cilometr, a chebl tanddaearol 5 cilometr o'r is-orsaf gasglu i'r compownd pennau selio ceblau. Rydym yn rhagweld y bydd angen i ni ddefnyddio tua 4 peilon ar gyfer pob cilometr. Wrth gwrs rydym yng nghamau cynnar datblygiad y prosiect, ac mae unrhyw fanylion sydd gennym yn ddangosol, a gallent newid. Disgwyliwn y bydd gennym fwy o wybodaeth, gan gynnwys manylion ynglŷn â lleoliad y peilonau, yn ein hail ymgynghoriad yn 2024.



C Pam ydych chi'n dewis defnyddio peilonau a llinell uwchben yn hytrach na cheblau o dan y ddaear?

A Mae peilonau i'w gweld mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle mae'r dirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o'r economi leol – mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn llawer o leoedd. Mae ceblau tanddaearol fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben.

Mae angen mwy o dir ar gyfer ceblau o dan y ddaear, a bydd mwy o aflonyddu ar y ddaear yn ystod y gwaith adeiladu, a allai arwain at effeithiau ecolegol ac archaeolegol mwy arwyddocaol. Yn ychwanegol at hyn, gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflymach – ac mae darparu'r cysylltiad newydd yn gyflym yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted ag y bo modd.

Gwyddom fod barn pobl ynglŷn â seilwaith newydd yn amrywio, ac rydym yn cydnabod bod gan bobl bryderon ynglŷn â chael peilonau yn rhan o'r dirwedd. Mae angen sicrhau cydbwysedd gofalus wrth ddarparu'r seilwaith y mae arnom ei angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

C Ydych chi'n ystyried llwybrau eraill?

A Credwn mai'r llwybr a ffeffrir sydd wedi cael ei nodi gennym yw'r opsiwn gorau ar sail y wybodaeth sydd ar gael i ni. Buom yn edrych ar dri llwybr posibl wrth ddewis y llwybr a ffeffrir, yn seiliedig ar leoliadau lle gellid cysylltu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchid gan barciau ynni newydd â'r rhwydwaith trydan. Y llwybr a nodwyd gennym oedd yn perfformio orau ar sail nifer o wahanol ffactorau. Byddwn yn dal i adolygu ein dewisiadau gorau wrth i ni symud ymlaen a byddwn yn datblygu dyluniad ar gyfer y cysylltiad, gan gynnwys lle bydd peilonau a chyfarpar arall yn sefyll yn y dirwedd leol. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o arolygon ac ymgynghori â pherchnogion tir, cymunedau a chyrrff arbenigol.

C Sut fydd y prosiect yn cael ei ariannu?

A Bydd cysylltiad Efyrrwy Frankton yn cael ei ariannu 100% gan Grŵp Bute Energy. Ni ddefnyddir arian cyhoeddus.

C Sut mae'r prosiect hwn yn gysylltiedig â Pharc Ynni Llyn Lort?

A Mae Parc Ynni Llyn Lort ger Cefn Coch yn un o'r parciau ynni sy'n bwriadu defnyddio cysylltiad Efyrrwy i Lower Frankton Green GEN Cymru.

Â chyfanswm o 25 o dyrbinau gwynt, bydd Llyn Lort yn cynhyrchu 165MW o drydan, digon i bweru 144,000 o gartrefi y flwyddyn. Gallai cymaint â hyn o ynni gwyrdd ddadleoli 10.1 miliwn o dunelli o CO₂ trwy hyd oes weithredol y prosiect. Mae lleoliad Llyn Lort wedi cael ei ddewis yn strategol er mwyn lleihau effeithiau ar gymunedau lleol; mae yno adnoddau gwynt rhagorol a gellir defnyddio'r pŵer hwn i gyflenwi cartrefi a busnesau â'r ynni y mae arnynt ei angen ar gyfer dyfodol carbon isel.

C Pwy fydd yn elwa o'r ynni sy'n cael ei ddarparu?

A Bydd cysylltiad Efyrrwy Frankton yn cludo pŵer o'r man lle mae'n cael ei gynhyrchu, i'r rhwydwaith trawsyrru yn Swydd Amwythig lle gellir ei ddosbarthu wedyn drwy'r grid. Ar ôl i'r trydan foltedd uchel ymuno â'r grid mewn pwynt cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru, caiff ei ddosbarthu drwy'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu (DNO) lleol. Y DNO ar gyfer ein hardal ni yw Scottish Power Energy Networks ac maen nhw'n cyflenwi trydan i Ganolbarth a Gogledd Cymru a rhannau o Loegr.

Mae hyn yn golygu y bydd ynni sy'n cael ei greu gan Llyn Lort a ffermydd gwynt eraill gan ddefnyddio cysylltiad Efyrrwy Frankton yn cyflenwi ynni i gartrefi a busnesau ym mhob cwr o Gymru a Lloegr.

C Sut fydd y prosiect yn darparu budd ac yn effeithio ar y gymuned leol?

A Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y cymunedau sydd o amgylch ein prosiectau. Rydym yn dal yng nghamau cynnar datblygiad y prosiect, ond byddwn yn darparu cyfleoedd i gadwyni cyflenwi yng Nghymru a Lloegr lle bynnag y bo modd.

Fel rhan o'n cais cynllunio, byddwn hefyd yn asesu effaith y prosiect ar fusnes a chyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad economaidd-gymdeithasol a chymunedol, a fydd yn ystyried sut y gallai'r prosiect effeithio ar yr ardaloedd hyn, a oes angen camau lliniaru, a sut y cyflwynir unrhyw gamau sydd eu hangen.

C Sut fydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth?

A Mae newid hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar blanhigion ac anifeiliaid – mae gwarchod bioamrywiaeth yn un o'r prif resymau dros symud oddi wrth danwydd ffosil. Mae angen cydbwysedd gofalus er mwyn diwallu anghenion y byd naturiol â'r seilwaith y mae arnom ei angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd datblygu seilwaith mawr bob amser yn cael effaith ar yr amgylchedd, ond gall hefyd fod yn gyfle i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth a gwella bioamrywiaeth.

Byddwn bob amser yn ceisio cadw unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth cyn lleied ag sy'n bosibl wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn cydymffurfio â'r canllawiau presennol yng Nghymru a Lloegr ar sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn yr ardal. Drwy weithio mewn cysylltiad agos â'r rhanddeiliaid perthnasol, byddwn yn ceisio sicrhau budd amgylcheddol a fydd yn cyflawni'r gofynion hyn ac yn rhagori arnynt.

C Sut fyddwch chi'n rheoli effaith amgylcheddol y prosiect?

A Rydym wedi ymrwymo i gadw effaith amgylcheddol ein cynigion mor isel ag sy'n bosibl. Caiff effaith amgylcheddol y prosiect ei asesu fel rhan o Asesiad o Effaith Amgylcheddol ein dyluniad terfynol ar gyfer y llinell uwchben a'r is-orsaf. Bydd yr asesiad yn edrych ar effeithiau amgylcheddol posibl ein cynigion, ynghyd â sut rydym yn bwriadu lleihau neu gyfyngu ar yr effeithiau hyn. Adroddir am hyn yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir fel rhan o'n cais am ganiatâd cynllunio.

Byddwn hefyd yn gweithio mewn cysylltiad agos â chyrrff arbenigol, grwpiau amgylcheddol lleol, perchnogion tir a chymunedau lleol er mwyn trafod ein canfyddiadau ac ymgynghori ar ein hargymhellion ynglŷn â'r ffordd orau o reoli unrhyw effeithiau posibl.

C Sut rydych chi'n bwriadu rheoli traffig adeiladu ar ffyrdd lleol a pha lwybrau trafndiaeth rydych chi'n bwriadu eu defnyddio?

A Rydym wedi ymrwymo i aflonyddu cyn lleied ag sy'n bosibl ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd a fydd yn cael eu heffeithio gan ein cynigion. Byddwn yn derbyn cyngor gan randdeiliaid technegol ac yn gwneud asesiad trylwyr o effaith y prosiect ar ffyrdd lleol fel rhan o asesiad traffig a thrafnidiaeth, sy'n un o ofynion y broses y byddwn yn ei dilyn wrth gyflwyno cais cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn bwriadu rheoli traffig adeiladu, a lleihau unrhyw effeithiau posibl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cadw cysylltedd rhwng trefi a phentrefi cyfagos, a byddwn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn gwneud pethau'n anodd i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

C Fydd unrhyw sŵn yn dod o'r llinell uwchben?

A Mae llinellau uwchben foltedd uchel yn gallu cynhyrchu sŵn weithiau, mewn rhai amodau. Yn aml iawn mae hyn yn swnio fel sŵn ffrio neu hymian, ac mae'n digwydd yn ystod tywydd gwlyb yn bennaf. Gall sŵn ddigwydd hefyd o ganlyniad i wynt yn chwythu heibio'r llinell neu'r peilonau. Caiff unrhyw effeithiau sŵn posibl eu hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a bydd hyn yn cynnwys cynlluniau i liniaru effeithiau. Byddwn bob amser yn sicrhau bod dyluniad y llinell uwchben a'r is-orsaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw effeithiau ar y gymuned leol.

C Beth yw meysydd trydanol a magnetig (EMF) ac ydyn nhw'n ddiogel?

A Cynhyrchir Meysydd Trydanol a Magnetig (EMF) pryd bynnag y mae trydan yn cael ei ddefnyddio neu ei drawsyrro. Mae'r gwifrau yn ein cartrefi, cyfarpar trydanol a'r cyflenwad trydan i gyd yn ffynonellau. Felly maen nhw o'n cwmpas drwy'r adeg yn yr oes fodern. Mae llinellau uwchben yn

ffynhonnell meysydd trydanol a magnetig, ond mae'n un o lawer iawn o ffynonellau. Y cysylltiad mwyaf posibl o dan y llinell uwchben yw 38.9 microtesla, sy'n debyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl wrth ddefnyddio sychwr gwallt neu wrth gerdded yn agos at bopty microdon pan mae'n coginio.

Mae uchafsymiau wedi'u pennu er mwyn ein diogelu rhag cysylltiad ag EMF. Mae'r uchafsymiau hyn yn seiliedig ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymhell lefelau diogel o gysylltiad ar gyfer y cyhoedd. Uchafswm y cysylltiad ar gyfer aelodau o'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych yn sefyll yn union o dan y llinell uwchben, mae'r lefelau'n gyfran fach iawn o'r uchafswm. Ar ôl degawdau lawer o ymchwil, ac ar ôl gwario miliynau o bunnoedd yn ymchwilio i'r mater, nid oes effeithiau ar iechyd wedi'u cadarnhau o dan uchafswm y cysylltiad.

C Sut fyddwch chi'n cefnogi'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y prosiect?

A Rydym yn deall yr effaith ar y rhai sy'n cael eu heffeithio gan ein cynigion, gan gynnwys perchnogion cartrefi, perchnogion tir a'r gymuned leol, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw effeithiau yn cael eu lliniaru gymaint ag sy'n bosibl.

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw effeithiau ar gymunedau yn isel, ond mae'r llwybr yn croesi drwy ardaloedd o dir amaethyddol. Mae ein tîm tiroedd penodedig yn siarad â pherchnogion tir ac yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ein cynigion. Os oes gennych ddiddordeb mewn tir sy'n cael ei effeithio gan ein cynigion ac nad yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi eto, gofynnwn i chi gysylltu â ni.



**Maint y Compownd
pennau Selio Ceblau**
– Tua

40 m x **40** m



C Sut fyddwch chi'n digolledu perchnogion tir sydd â chyfarpar ar eu tir?

A Rydym yng nghamau cynnar datblygiad y prosiect hwn ar hyn o bryd ac nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynglŷn â ble bydd y llinellau uwchben na'r peilonau'n mynd ar y llwybr a ffefrir.

Dyma ein rownd ymgynghori gyntaf, ac rydym yn gofyn am adborth am y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn a sut y dylem ddatblygu ein cynigion ymhellach. Mae'n bwysig iawn i ni bod pobl yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn rhoi gwybod i ni am eu pryderon er mwyn i ni allu gweithio i leihau'r effeithiau ar gymunedau ac eiddo unigol.

Pan fyddwn wedi mireinio ein cynigion, byddwn yn gweithio gyda pherchnogion tir sy'n cael eu heffeithio er mwyn trafod sut y gallwn eu cefnogi. Byddwn yn gweithio'n galed i leihau effeithiau ar eiddo unigol, ond os bydd y dyluniad terfynol yn effeithio ar eich eiddo, byddwn yn trafod pa iawndal sydd ar gael i chi yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

C Fyddwch chi'n gwneud arolygon, a pha rai sydd eu hangen?

A helpu i ddarganfod unrhyw ffactorau y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiect. Fel arfer bydd y rhain yn golygu bod nifer fach o bobl yn mynd i ambell ddarn o dir i wneud arolygon archaeolegol, amgylcheddol a pheirianyddol amrywiol.

Nid yw cais i wneud arolwg ar unrhyw ddarn o dir yn golygu y bydd y tir hwnnw o reidrwydd yn rhan o'r llwybr nac y bydd seilwaith yn cael ei osod arno. Cyn i ni wneud unrhyw arolygon, byddwn bob amser yn cytuno ar gwmpas y gwaith a'r amser gyda pherchnogion y tir.

C Pryd fydd y prosiect yn cael ei gwblhau?

A Rydym yng nghamau cynnar iawn y prosiect, ond os byddwn yn cael caniatâd cynllunio rydym yn disgwyl y bydd y llinell yn weithredol erbyn 2028.

Uchder y peilonau:


27_m



Lled y llwybr a ffefrir:

200_m

Ôl troed yr is-orsaf gasglu – Tua



200_m
x 200_m

Hyd y cyfnod adeiladu –
Tua



2 flynedd



info@greengen
vyrnwyfrankton.com



0800 915 3590



FREEPOST
Green GEN
Cymru V2F